O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2414 (Cy. 260)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cylchfan Pont Abraham i Barc Busnes Cross Hands, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Medi 2011* |
| *Yn dod i rym* | *10 Hydref 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A48) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Hydref 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cylchfan Pont Abraham i Barc Busnes Cross Hands) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 10 Hydref 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau o gefnffordd yr A48 rhwng Pont Abraham a Cross Hands yn Sir Gaerfyrddin a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.**Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, droi i'r dde ar y gefnffordd, nac oddi arni, yn y mannau a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith ddefnyddio cerbyd, na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, tra bo'r ddarpariaeth yn erthygl 5 mewn grym.

**8.** Nid yw darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau neu'r gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**9.**Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 18 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 30 Medi 2011

*G R Morgan*
**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1
## Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Pont Abraham i bwynt 450 o fetrau i'r de o ganolbwynt trosbont Parc Busnes Cross Hands.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Parc Busnes Cross Hands i'w chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Pont Abraham.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 100 o fetrau o'i chyffordd â throsbont Parc Busnes Cross Hands i'r lle y mae'n ymuno â'r brif gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd.

## ATODLEN 2
## Terfynau Cyflymder 40 mya a 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 200 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Pont Abraham i bwynt 450 o fetrau i'r de o ganolbwynt trosbont Parc Busnes Cross Hands.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 400 o fetrau i'r de o drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain ym Mharc Busnes Cross Hands i'w chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Pont Abraham.

## ATODLEN 3
## Dim Troi i'r Dde Dros Dro

Dim troi i'r dde oddi ar y brif gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd i fynedfa Castell Isaf.

Dim troi i'r dde o'r fynedfa i Gellywen i brif gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd.

Dim troi i'r dde o fynedfa Rhos-fawr i brif gerbytffordd tua dwyrain y gefnffordd.

Dim troi i'r dde oddi ar y brif gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd i'r ffordd ddi-ddosbarth, yr U2310.

Dim troi i'r dde oddi ar y brif gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd i fynedfa Bryn Gelli a Gelli'r Odyn.

Dim troi i'r dde oddi ar y brif gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd i fynedfa Gelli-glyd.